**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 2 Gorffennaf 2019, Ystafell Friffio'r Cyfryngau, 12.00-13.30pm</u>**

**<u>Banc cymunedol cydweithredol newydd i Gymru</u>**

<u>Yn bresennol</u>

Ibrahim Ali, Swyddfa Suzy Davies AC

Mick Antoniw, Aelod Cynulliad dros Bontypridd.

Alex Bird, consultancy.coop

Brian Carroll, Ffoton

John Chown, Williams Ross Cyfyngedig

Hefin David, Aelod Cynulliad dros Gaerffili

Lara Date, tîm Pwyllgor EIS

Gethin Edwards, Comisinydd y Gymraeg

Mike Erskine, Canolfan Cydweithredol Cymru

Richard Essex, Rhwydwaith Ymarferwyr Adfywio CREW

Nicola Field, Undeb Credyd LifeSavers Pen-y-bont ar Ogwr

Tony Greenham, South West Mutual

Leanne Herberg, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro

Adam Hitchings, Cronfa Dreftadaeth Bensaernïol

Mark Hooper, IndyCube

Vikki Howells, Aelod Cynulliad Llafur Cymru dros Gwm Cynon

Marcus Iles, ABCUL

Huw Irranca-Davies, Aelod Cynulliad dros Ogwr

Edward Jones, Prifysgol Bangor

Geraint Jones, ABCUL

Mike Payne, GMB

Jamie Pike, Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Socrates Siskos, IndyCube

Ben Stokes, Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

John Waters, Banc Cymunedol Robert Owen

Karen Wilkie, Y Blaid Gydweithredol

Alex Williams, Swyddfa Russell George AC

David Williams, Undeb Credyd Gateway

Sara Wollatt, Swyddfa Archwilio Cymru

Agenda

- Cyflwyniadau - Vikki Howells AC
- Datblygu banc cymunedol cydweithredol yng Nghymru. Derek Walker a Mark Hooper, Banc Cambria
- Dysgu gan South West Mutual. Tony Greenham, Cyfarwyddwr Gweithredol, South West Mutual

Cofnodion y cyfarfod

- Dechreuodd Vikki Howells y cyfarfod drwy groesawu'r siaradwyr ac ystyried ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Fynediad at Fancio.
- Nododd Mark Hooper y cyd-destun ar gyfer datblygu Banc Cambria yn sgîl cau banciau. Mae banciau'n cau canghennau'r stryd fawr er bod tri o bob deg o bobl yn dal i ddefnyddio canghennau banc. Mae cau canghennau yn effeithio'n negyddol ar economïau lleol, er enghraifft mae angen i fusnesau gau yn gynnar i deithio i'w cangen agosaf i fancio eu harian.
- Nododd Mark Hooper y broses o sefydlu banc cymunedol cydweithredol. Mae gan Gymdeithas y Banc Cynilion Cymunedol fanc mewn model blwch sydd wedi gwneud llawer o'r gwaith paratoi. Nod Banc Cambria yw cael trwydded a gweithredu'n gyflym.
- Dadleuodd Mark Hooper fod banciau cymunedol yn rhan o'r un sefydliad ag undebau credyd
- Amlinellodd Derek Walker sut mae gwerthoedd wrth wraidd y syniad o fanc cymunedol. Mae banciau cymunedol yn rhan o'r un sefydliad ag undebau credyd a gallant weithio gyda'i gilydd. Bydd y banc yn endid annibynnol.
- Siaradodd Tony Greenham am ei ymchwil gyda'r RSA. Mae diffyg amrywiaeth o ran bancio yn y DU, ac mae diffyg banciau cydfuddiannol rhanbarthol o'i gymharu â gwledydd eraill. Y DU yw'r mwyaf anghyfartal rhwng rhanbarthau, ac mae hynny'n rhannol oherwydd diffyg sefydliadau ariannol rhanbarthol. Amlinellodd fanteision y model. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig, a changhennau lleol sy'n deall amgylchiadau lleol yn well, ac maent yn fwy tebygol o fenthyca arian i fusnesau bach a chanolig. Maent yn cefnogi'r economi go iawn tra bod banciau mawr yn tueddu i ganolbwyntio ar fasnachu a dyfalu. Cynyddodd banciau cydweithredol yn yr Almaen eu benthyca drwy'r dirwasgiad o gymharu â dirywiad a fu o ran benthyca yn y DU. Maent hefyd yn benthyca mewn ffordd gyfrifol. Er enghraifft, nid ydynt yn buddsoddi mewn diwydiannau tanwydd ffosil.

Trafodaethau.

- Gofynnodd Hefin David pwy fyddai'n talu'r costau cychwynnol uchel o ran y banc. Amlinellodd Tony Greenham sut mae South West Mutual wedi codi arian gan awdurdodau lleol. Yn yr hirdymor, gallant gael elw o 6% o'r buddsoddiad hwn. Byddai sicrhau trwydded fancio yn lleihau'r risg hwn ymhellach.
- Gofynnodd Geraint Jones am y berthynas ag undebau credyd ac a fydd asesiad risg o ran effaith ar y mudiad undebau credyd. Amlinellodd Derek Walker sut mae cynlluniau ar gyfer y banc yn parhau yn y camau cynnar. Mae aelodau Banc Cambria wedi cwrdd â Fforwm Undeb Credyd Cymru Gyfan. Mae Undebau Credyd hefyd yn rhan o Grŵp Gweithredu Banc Cyhoeddus Cymru. Dadleuodd Mark Hooper hefyd nad yw cymunedau'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan fanciau'r stryd fawr ac na fydd llenwi'r bwlch hwnnw'n disodli undebau credyd. Bydd y banc hefyd yn ceisio rhannu gofod gydag undebau credyd, er enghraifft cynnig gwasanaethau mewn canghennau undeb credyd.
- Gofynnodd David Smith am berchnogaeth, a sut y bydd y banc yn ymgysylltu ag aelodau yn ystyrlon. Amlinellodd Derek Walker sut mae 80 o aelodau sylfaenol ond nid yw'n bosibl marchnata aelodaeth i'r cyhoedd eto.
- Gofynnodd Leanne Herberg a fydd y banc yn darparu benthyciadau. Dywedodd Mark Hooper y bydd y banc yn darparu benthyciadau personol ond ar gyfradd wahanol i undebau credyd. Yn wahanol i undebau credyd unigol, bydd gan y banc gwsmeriaid o Gymru gyfan hefyd. Dywedodd Tony Greenham fod undebau credyd yn gyfyngedig o ran math a maint y benthyciadau y gallant eu cynnig. Mae ganddynt gwsmeriaid gwahanol a system reoleiddio wahanol.
- Gofynnodd Gethin Edwards a fydd gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddwyieithog, gan gynnwys ar apiau ar-lein. Atebodd Mark Hooper y byddai gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys drwy ap.
- Gofynnodd Mike Payne ynghylch ymgysylltu ag undebau llafur, ac onid oedd modd annog aelodau i fuddsoddi ac ymgysylltu. Dywedodd Derek Walker, gan fod y banc yn y camau cynnar, nad oeddent eto wedi ymgysylltu ag undebau llafur ond bod cynllun i wneud hynny.